PDF Argraffu Cyfeirnodi

# OWEN, ATHELSTAN (1676 - 1731), Rhiwsaeson, Llanbryn-mair, Sir Drefaldwyn

**Enw:** Athelstan Owen
**Dyddiad geni:** 1676
**Dyddiad marw:** 1731
**Priod:** Anna Athelstan (née Corbet)
**Plentyn:** Ann Maurice (née Owen)
**Plentyn:** Elizabeth Powell
**Plentyn:** Richard Owen
**Plentyn:** Corbet Owen
**Rhyw:** Gwryw
**Cartref:** Rhiwsaeson
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Ganwyd 1676 (bedyddiwyd 26 Tachwedd); aeth i Rydychen yn 1693; bu'n siryf Meirion yn 1726; bu farw 14 Awst 1731, a chladdwyd yn Nhywyn. Cynnwys llawysgrif Bangor 7056 (1-75) yn llyfrgell Coleg y Gogledd brydyddiaeth Saesneg ganddo, 'yr ail ran', yn dechrau yn 1711 ac yn ymestyn hyd tua 1729; arddengys addysg glasurol dda, hoffter o'i fro, a diddordeb byw yng ngwleidyddiaeth a moesau ei gyfnod.

Ymdrinir a'i briodas a'g Ann, aeres Ynysmaengwyn, Sir Feirionnydd, yn yr erthygl ar deuluoedd Wynn - Pryse - Corbet o'r lle hwnnw. Ar ei deulu gweler *Collections, historical & archaeological relating to Montgomeryshire*, xxii, 35-43.

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Rhannu

**Arddull APA**

×

(1970). OWEN, ATHELSTAN (1676 - 1731), Rhiwsaeson, Llanbryn-mair, Sir Drefaldwyn. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 4 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-OWEN-ATH-1676

Copïo i'r clipfwrdd



LLGC NLW LLYFRGELL THE NATI

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government